

## Arweiniad i Ffynonellau Rhif 10

# COFNODION Y CHWARTER-SESIWN

### BETH YW COFNODION Y CHWARTER-SESIWN?

Cofnodion y Chwarter-Sesiwn yw'r cofnodion sy'n goroesi o'r llysoedd a oedd yn gweinyddu llywodraeth leol ar lefel Sirol tan 1971. Cyflwynwyd Llysoedd y Chwarter-Sesiwn yng Nghymru yn dilyn Deddfau Uno 1536 ac 1543. Cynhelid y Llysoedd bob chwarter yn yr wythnosau yn dilyn dyddiau gŵyl yr Ystwyll (6<sup>ed</sup> Ionawr), y Pasg, Trawsnewidiad Sant Thomas y Merthyr (7<sup>fed</sup> Gorffennaf), a Gŵyl Mihangel (29<sup>ain</sup> Medi). Yn Sir y Fflint, byddai llysoedd yn cael eu cynnal fel arfer ar yr ail ddydd lau ar ôl y dyddiad priodol. Cynhelid y Llysoedd chwarter hyn yn eu tro yn Yr Wyddgrug, Y Fflint a Threffynnon. Nid yw cofnodion Chwarter-Sesiwn Sir y Fflint wedi goroesi cyn 1720.

Rydym hefyd yn dal cofnodion Llysoedd y Sesiwn Fach, a oedd yn ymdrin â materion llai difrifol, o 1874 ar gyfer Rhanbarthau Caerwys a'r Fflint; ac o 1897 ar gyfer Rhanbarth Treffynnon (cyf: PS).

Cynhelid Llysoedd y Sesiwn Fawr (tebyg i'r Brawdlysoedd yn Lloegr) hefyd ar gyfer achosion cyfreithiol a sifil mwy difrifol. Roedd y rhain yn neilltuedig i Gymru a dechreuasant yn 1542. Cawsant eu diddymu pan gafwyd y gyfundrefn Brawdlysoedd yn eu lle yn 1830. Cedwir cofnodion Llysoedd y Sesiwn Fawr sy'n goroesi yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth yn awr. Mae yna 'gronfa ddata Trosedd a Chosb' ar-lein chwiliadwy sy'n cynnwys data ynghylch troseddau, troseddwy'r a chosbau sydd wedi'u cynnwys yn ffeiliau carchar Llys y Sesiwn Fawr yng Nghymru, 1730-1830, ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol, <http://www.llgc.org.uk>

Hyd nes y sefydlwyd cynghorau sir a dosbarth yn 1888 ac 1894, Llysoedd y Chwarter-Sesiwn oedd yn gyfrifol am faterion cyfreithiol ac am weinyddiaeth sifil y sir, yn cynnwys adeiladu a chynnal a chadw ffyrdd a phontydd, a chodi trethi. Roeddynt yn gyfrifol hefyd am roi cymorth i'r tlawd, symud crwydriaid o blwyfi i'w man anheddu, a setlo cyhuddiadau bastardiaeth. Cyfrifoldebau eraill oedd rhoi trwyddedau, a phenodi swyddogion sirol; ac roedd mudiadau megis Cyfrinfeydd Masonaidd a chymdeithasau cyfeillgar yn gorfod gadael eu rheoliadau gyda'r Clerc Heddwch. Disodlwyd Llysoedd Chwarter-Sesiwn gan Lysoedd y Goron yn 1971.

### BETH ALLAF EI GANFOD TRWY GOFNODION Y CHWARTER-SESIWN?

Mae'r cofnodion i'w cael yn y ffurfiau canlynol:

**LLYFRAU COFNODION – QS/MB** – Dyma gofnod ffurfiol gweithrediadau'r llys, yn ymwneud â materion cyfreithiol a gweinyddol, y naill a'r llall. Maent yn cofnodi'r man ble cynhaliwyd pob sesiwn cyffredinol a gohiredig, ac yn rhestru'r ustusiaid a oedd yn bresennol. Mae'r canlynol ymhlith cofnodion a all fod yn ddefnyddiol i ymchwilyr:

- **GORCHMYNION** ynglŷn ag adeiladu ac atgyweirio pontydd y sir ac adeiladau'r sir; codi trethi'r plwyf a'r sir; penodiadau swyddogion sirol; talu cyflogau a threuliau megis cludo crwydriaid a chario ffeloniaid; apeliadau i symud tlodion o un plwyf i'r llall; apeliadau yn erbyn asesiadau trethi; gorchmynion yn ymwneud â derbyn a rhyddhau o garchar y sir neu dŷ cywiro.
- **YMRWYMIADAU** pobl a rwydwyd i gadw'r heddwch ac i ymddangos gerbron y llys, fel arfer i ateb cyhuddiad, i erlyn, neu i roi tystiolaeth.

- **PRESENTIADAU** fel arfer gan uchel gwnstabiliaid cantrefi neu gan ustusiaid unigol, ynghylch anghenion atgyweirio ffyrdd a phontydd, ayb.
- **DITIADAU** fel arfer gan yr uchel-reithgor am ymosodiad, lladrad, ffeloniaeth a throseddau eraill.
- **TREIALON A GWADIADAU** pobl a ddiwyd am ymosodiad, lladrad, ffeloniaeth, ayb, gan roi'r rheithfarn a'r gosb; manylion dirwyon, chwipio, carcharu neu alltudio (o 1753).
- **EUOGFARNAU** am fân droseddau o flaen ustusiaid y tu allan i'r sesiwn, llawer o dan y Deddfau Helwriaeth (o 1800).

**RHOLIAU CHWARTER-SESIWN - Q/SR** - Mae'r rhain yn rhoi cipolwg amhrisiadwy ar yr agweddau lawer ar lywodraeth sirol yn y 18<sup>fed</sup> - 20<sup>fed</sup> ganrif. Roedd yr hyn a gynhwyswyd mewn rhôl yn dibynnu ar y Clerc Heddwch neu'i Ddirprwy, ac nid yw'r holl ddogfennau wedi'u cadw. Mae'r cofnodion hyn wedi'u cynnwys o fewn y bwndeli gwreiddiol a gallant fod yn anodd eu trin, felly cymerwch ofal wrth ddefnyddio'r cofnodion hyn os gwelwch yn dda. Maent yn cynnwys gwybodaeth ynghylch manylion busnes llys, yn cynnwys:

- **CALENDRAU CARCHARORION**: rhestr o bob carcharor i'w roi ar brawf yn y Chwarter-Sesiwn.
- **DEPONIADAU**: croesholiadau diffinyddion a hysbysiaethau tystion, yn aml yn rhoi manylion amgylchiadol diddorol. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud ag achosion bastardiaeth.
- **EUOGFARNAU** o flaen ustusiaid y tu allan i'r Sesiwn.
- **GORCHMYNION SYMUD** i fynd â thlodion i blwyf eu geni, gyda chroesholiadau, hysbysiaethau apelio, biliau am gostau symud, a phapurau cysylltiedig eraill.
- **TRWYDDEDAU CRWYDRIAID** i fynd â chrwydriaid allan o'r sir.
- **TYSTYSGRIFAU SACRAMENT** a oedd eu hangen o dan y Ddeddf Brawf, 1673, gan bobl oedd yn dal swydd gyhoeddus, yn cofnodi bod yr unigolyn wedi derbyn y Cymun Bendigaid yn ôl defodau'r Eglwys Wladol.
- **GWRITIAU VENIRE FASCIAS** yn gorchymyn y siryf i alw'r rheithgorau a swyddogion gerbron yr ustusiaid.
- **NOMINA MINISTRORUM**: rhestrau'r bobl a elwir i fynychu'r sesiwn, gan roi enwau stiwardiaid ac arglwyddi maenorydd o fewn y sir, beiliaid bwrdeistrefi Caerwys a'r Fflint, a beiliaid ac uwch-gwnstabiliaid pob cantref.
- **YMRWYMIADAU, PRESENTIADAU A DITIADAU** (gweler Llyfrau Cofnodion, uchod). Mae ditiadau am ladrad yn rhestru'r nwyddau sydd wedi'u dwyn.
- **ADRODDIADAU** pobl sy'n gymwys i wasanaethu fel uwch-gwnstabiliaid cantrefi; carcharorion yng ngharchar y sir; y milisia lleol; a phris yd yn Nhreffynnon a'r Wyddgrug.
- **BILIAU AC AMCANGYFRIFON** am waith ar bontydd y sir ac adeiladau'r sir; gwaith a wnaed gan y clerch heddwch; biliau crwneriaid am ymchwiliadau; biliau gan gwnstabiliaid am gludo crwydriaid a chario ffeloniaid; costau eraill.
- **GORCHMYNION GWYRO PRIFFYRDD** gyda chynlluniau'n dangos y ffordd sydd i'w gwyro neu'i chau.
- **TYSTYSGRIFAU CWBLHAU** gwaith ar bontydd a phriffyrdd y plwyf, a roddir gan ustusiaid.

Mae'r cofnodion eraill yn cynnwys: **GWEINYDDIAETH** (QS/AB), **YR HEDDLU** (QS/AP), **PWYLLGORAU** (QS/AC); **CYFRIFON CYFFREDINOL** (QS/FA); **MILISIA** (QS/FM); **TALEBAU** (QS/FV); **TRETHI'R SIR** (QS/FR); **DYFARNIADAU CAU TIR** (QS/DE), **COFNODION COMISIYNWYR CAU TIR** (QS/DEM); **CYNLLUNIAU: FFYRDD** (QS/DT); **CAMLESI** (QS/DC); **RHEILFFYRDD** (QS/DR); **AFONYDD** (QS/DD); **NWY A DŴR** (QS/DG); **GWELLIANAU** (QS/DI); **PIERAU A DOCIAU** (QS/DP); **PONTYDD** (QS/DB); **TRYDAN** (QS/DL); **DEDDFAU A GORCHMYNION A ADNEUWYD** (QS/DA) a **CHOFNODION Y CLERC HEDDWCH** (QS/CP).

## **SUT ALLAF DDEFNYDDIO COFNODION Y CHWARTER-SESIWN YN ARCHIFYD Y SIR Y FFLINT?**

Mae rhai cofnodion Chwarter-Sesiwn yn swmpus ac yn anodd eu defnyddio. Mae Rholiau Chwarter-Sesiwn yn arbennig wedi'u cynnwys o fewn eu bwndeli rholiedig gwreiddiol. Ar ddiwedd pob Sesiwn, byddai'r holl bapurau a memrynau rhydd yn cael eu ffeilio gyda'i gilydd gan ddefnyddio daliwr yng nghornel chwith uchaf pob dogfen, wedi'u rhwymo â llinyn. Yna byddai'r ffeiliau hyn yn cael eu rhoio neu'u lapio mewn dalen fawr o femrwn, a dyna pam yr enw 'Rholiau Chwarter-Sesiwn'. Felly nid ydynt yr hawsaf o ddogfennau i'w defnyddio, gan eu bod wedi'u llinynnu â'i gilydd, ac nid yw hi bob amser yn bosibl darllen pob eitem yn llawn heb niweidio'r cofnodion brau. **Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio'r archifau brau ac unigryw hyn os gwelwch yn dda** (gweler y Canllawiau Trin am wybodaeth a gofynnwch i aelod o'r staff ynghylch sut i ddefnyddio'r cofnodion hyn os gwelwch yn dda). Mae Rholiau'r Chwarter-Sesiwn, 1747-1752 wedi'u calendro ac mae copi o'r calendr hwn ar gael ar silffoedd agored yn yr Ystafell Chwilio (cyf: QS/R/1-16). Mae'r Rholiau dyddiedig 1752-1829 wedi'u hadysgrifio, ac mae copi o'r adysgrifau ar gael yn yr Ystafell Chwilio ar silffoedd agored.

Mae'r holl gofnodion Chwarter-Sesiwn yn eu ffurf wreiddiol, a **bydd angen ichi archebu desg** i gael golwg arnynt. Archebwch bob eitem gan ddefnyddio **slip gofyn am ddogfen**. Ysgrifennwch gyfeirnod y ddogfen (ynghyd â'ch enw, rhif eich sedd, a'r dyddiad) ar y slip a'i rhoi i mewn wrth y ddesg ymholiadau i archebu'r cofnodion.

### **MWY O WYBODAETH**

Mae'r llyfrau canlynol ar gael ar silffoedd agored yn yr ystafell chwilio, ac yn rhoi mwy o wybodaeth am gofnodion y Chwarter-Sesiwn:

*Beddoe, D. Welsh Convict Women. 1979.*

*Hawkings, D.T. Criminal Ancestors, A Guide to Historical and Criminal Records in England and Wales. 1992. Pennod 4: Courts of Quarter Sessions.*

*Jones, D.J.V. Crime in Nineteenth Century Wales. Caerdydd. 1992.*

*Pratt, Derek. A Calendar of the Flintshire Quarter Sessions Rolls, 1747-1752. Archifdy Clwyd. 1983. Yn cynnwys cyflwyniad manwl sy'n rhoi hanes cefndir y llysoedd Chwarter- Sesiwn yn Sir y Fflint.*

*Riden, P. Record Sources for Local History. Llundain. 1987.*

*Veysey, A.G. Guide to the Flintshire Record Office. Cyngor Sir y Fflint. 1974. tt1-7, Guide to the Court of Quarter Sessions.*